# Croeso i Abaty Tyndyrn


Abaty heddychlon sy'n deffro awen artistiaid

## Beth i'w weld yn Abaty Tyndyrn

1. Cynnes braf! Yr ystafell gynhesu/tŷ twymo oedd yr unig le â thân, lle câi'r mynachod gynhesu a sychu eu dillad. Yma roedden nhw'n cael torri eu gwallt hefyd ac yn cael gollwng gwaed hyd at bedair gwaith y flwyddyn!
2. Cewch ddilyn system ddraenio'r Abaty o'r ceginau a thrwy'r toiledau. Fe synnwch at y system ddŵr — system fwyaf soffistigedig ei chyfnod.
3. Cymdogion parchus. Yn aml, cai abadau, cymwynaswyr a noddwyr eu claddu yn eglwys yr Abaty. Edrychwch yn ofalus ac efallai y gwelwch garreg fedd William Wellsted a physgod wedi'u hysgythru arni.
4. Dydyn nhw ddim yn ei galw'n Ffenest Orllewinol Fawr am ddim rheswm! Cafodd ei hadfer yn ofalus gan seiri meini crefftus Cadw ac mae'n tanio'r dychymyg heddiw fel y gwnaeth ers canrifoedd.
5. Chwiliwch am gerflun enwog Tyndyrn o'r Forwyn Fair a'r Baban Iesu. Cafodd ei gerfio dros 700 mlynedd yn ôl a'r gred oedd bod iddo bwerau gwyrthiol. Mae ailgread modern o'r cerflun, o waith Philip Chatfield, yn yr ystlys ddeheuol.
6. Dim Mynediad.
7. Y fynedfa, y siop a'r toiledau.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

cadw.llyw.cymru




Ymunwch â Cadw i fwynhau mynediad diderfyn i 130 o safleoedd hanesyddol

Dim Mynediad

Addas ar gyfer Cadeiriau Olwyn

Mae'r heneb hon yng ngofal Cadw, gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Mae Cadw'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei warchod yn dda. Mae'n drosedd difrodi neu ddifwyno'r heneb.

### Er eich diogelwch

Gall henebion fod yn beryglus.
Peidiwch â dringo ar yr heneb.
Cymerwch ofal wrth ymweld â'r safle hwn.
Rhaid goruchwylio plant dan 16 oed trwy'r amser.